OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1261 (Cy.118)

HAWLIAU BRIDWYR PLANHIGION, CYMRU

Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*3 Mai 2006*
Yn dod i rym	- -	*12 Mai 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 9(6) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**) ar ôl ymgynghori â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn gynrychioliadol o'r personau y mae'n debygol yr effeithir arnynt yn sylweddol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Hawliau Bridwyr Planhigion (Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 12 Mai 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dirwyn i Ben Esemptiad o Ddefnydd Blaenorol

2. Mae adran 9(5) o Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997 yn peidio â chael effaith.

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) 1997 p.66. gweler adran 49(1) i gael y diffiniad o "the Ministers".